YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 8.] AWST, 1923. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.
ODDIAR Y TWR.
Y PECHOD ANFADDEUOL.
BYR GOFFA AM Y DIWEDDAR Mr. JOHN JENKINS (CERNGOCH).
URDD Y DEYRNAS.
UNDEB Y MERCHED UNDODAIDD.
Y GARREG WEN A'R ENW NEWYDD.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfr Newydd allan o'r Wasg.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH"

— GAN —

Alfred Hall, M.A.,

CYFIEITHIWYD GAN

T. Oswald Williams, B.A.

110 tudalen. Pris 3c.; trwy'r post 4½c. 13 am bris 12.

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

Mourning Cards...

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1923. [CYF. XXIII. RHIF 8.

AR ADEN FFYDD.

CYNNYDD DYN.

(M.H.)

O, weithiau melus drem a gawn
Drwy'r niwl ar y Tragwyddol iawn :
O gam i gam, er dechreu'r byd,
Mae'n amlwg gynnydd dyn o hyd.

Holl dda'r gorffennol sydd o'r bron
Yn helpu i wneud y byd yn llon ;
Dwyfoli'n bywyd dyddiol biau,
A gwneud pob gwlad yn Ganaan mae.

Mae'r newydd yn rhagori'n fawr
Ar hen, yn rhyfeddodau'r llawr ;
Yn wastad gwêl pob llygad byw
O'i gylch ddirgelion dyfnion Duw.

Trwy arw drystiog ferw ein dydd,
Rhyw felus sain yn treiddio sydd ;
A thrwy amheuon oesau hir,
Rhyw hyfryd wawl sy'n torri'n glir.

Ac felly, wylo mwy ni wnaf
Am ddyddiau gynt, am decach haf,
Can's cariad Duw a'i decach lan
Sydd yma 'nawr, ac ym mhob man.

J. G. WHITTIER *(Cyf. R.J.J.).*

ODDIAR Y TWR.

TAITH gyfoethog ei hadnoddau yw'r Gymraeg. Eithr er cyfoethoced ydyw, braidd y credaf ei bod yn ddigon cyfoethog i roi mynegiad i bob math ar feddylddrych—fod yn y Gymraeg ddigon o eiriau ac ymadroddion addas i roi mynegiad cywir i ystyr pob gair neu ymadrodd Saesneg. Er enghraifft: beth yw'r Gymraeg am *Spring Cleaning*? Er chwilio, methais gael fy modloni fod un gair neu ymadrodd Cymraeg hollol gyfystyr—cyfystyr yn yr ystyr ag y mae *Gwanwyn* yn Gymraeg am *Spring*, a *Glanhau* yn Gymraeg am *Cleaning*. Dyma gyfle ardderchog i'n darllenwyr i roi prawf ar eu hyfedredd i fathu gair neu ddeuair Cymraeg—nid gair neu ddeuair Saesneg-Gymraeg, ond gair neu ddeuair Cymraeg pur—i gynrychioli ystyr y ddeuair a enwyd—*Spring Cleaning*.

* * *

Beth barodd imi ddechreu'm llith fel hyn? Yn ddiweddar, bûm drwy'r oruchwyliaeth boenus ddynodir gan yr ymadrodd *Spring Cleaning*. Dywedir wrthyf fod hon yn oruchwyliaeth dra chyffredinol, ac na ddylwn achwyn. Fy esgusawd yw—fod y rhan fwyaf o bennau teuluoedd yn fwy ffodus na mi: y mae ganddynt hwy—y mwyafrif o honynt, o leiaf—le i gilio o'r ffordd, tra nad yw'r fraint hon yn eiddo i mi. Felly, pan ddaw'r adeg, fe'm gorfodir i droi popeth ar y neilltu, a chymryd rhan yn yr oruchwyliaeth; a chyda nerth braich ac ysgwydd yr ymdaflaf iddi, nid oblegid fy mod yn hoffi, eithr er cael y cwbl drosodd cynted ag y medraf. A phan dybiaf fy mod wedi cyrraedd pen y daith, dyma'r ddedfryd syrth ar fy nghlustiau: "Nawr, mae pob ystafell yn y ty yn lân, *ond un*." Ie, "ond un"; a'r un honno yw'r lyfrgell.

* * *

Y mae'r ddedfryd yn eithaf gwir: fel rheol, dipyn yn aniben yw'm llyfrgell. A'm hunig amddiffyniad yw—nad da gweld gweithty yn or-drefnus. Eithr o glywed y ddedfryd, fe ddaw rhyw gymaint o ysfa drosof i "wneud tipyn o drefn" (ys dywedir) ar y lyfrgell hefyd, fel na bo i neb golli awr o gysgu oblegid honno. Eithr goruchwyliaeth hyfryd ddigon yw hon—i mi; ac y mae iddi gyfrdaliad; oblegid wrth gymhennu a threfnu a symud y llwch, fe ddaw i'm golwg, un ar ol y llall, lawer o hen gyfeillion y cefais cyn hyn lawer o bleser ac adeiladaeth yn eu cwmni. Ie, cwmni; oblegid nid cwmni fel cwmni llyfrau—i'r llyfrgarwr.

* * *

Yr wyf newydd orffen *Spring Cleaning* yn ei berthynas â'r lyfrgell. Pan yn ei chanol, o droi a throsi'r llyfrau, gosodais fy llaw ar "Weledigaethau'r Bardd Cwsg, gan Elis Wyn o Lasynys," llyfr y bûm yn ei ddarllen cyn hyn gyda chryn lawer o ddychryn. Y mae amser maith er adeg Elis Wyn (Ellis Wynne, yn ol rhai: pa un sydd iawn, nis gwn)—oddeutu dwy ganrif a hanner: fe'i ganwyd yn 1671, a bu farw yn 1734. Yr oedd yn byw, felly, cyn gwawriad adeg y deffroadau crefyddol a adawsant y fath effaith ar fywyd Cymru; yr oedd, fel y'i disgrifir yn gywir iawn mewn erthygl ddiddorol, ond gochelgar, yn y *South Wales News* ddechreu Mehefin, "fel un yn llefain yn yr anialwch cyn torriad gwawr y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru." Y tebygolrwydd yw fod gan Elis Wyn, drwy ei "Weledigaethau," gryn lawer i wneud â pharatoi meddwl y werin Gymraeg ar gyfer y deffroadau crefyddol fu'n nodwedd mor amlwg o Gymru yn y rhan olaf o'r 18fed a'r oll o'r 19eg ganrif.

* * *

Cyhoeddwyd y "Gweledigaethau" gyntaf yn 1703. Fe'i rhennir i dri phennawd—"Gweledigaethau Cwrs y Byd," "Gweledigaethau Angau," a "Gweledigaethau Uffern." O ddarllen y cyntaf, fe gawn yn ddiameu ddarluniad ffyddlon o gyflwr Cymru tua chydiad y 17eg a'r 18fed ganrif; a darlun du iawn ydyw. Nid difudd fyddai rhoi ychydig ddyfyniadau o gynnwys y ddau bennawd cyntaf; eithr gan mai â'r trydydd y mae a fynnwyf yn awr, rhaid ymatal. Fe'm temtir i ddyfynnu'n ehelaeth o gynnwys y pennawd olaf, er budd (neu'r gwrthwyneb) y cyfryw o'n darllenwyr nad ydynt gyfarwydd â'r llyfr. Disgrifiad o ymweliad (mewn breuddwyd) yr awdur, dan arweiniad un o'r Angylion Sanctaidd—"Angel teyrnasoedd y Gogledd, gwarcheidwad Prydain a'i Brenhines"—ag uffern, yw'r pennawd.

* * *

Dyma'i ddisgrifiad o'i neshâd at ororau gwlad Distryw: "Trwy'r gymysgfa fawr arswydus, ni a dorasom, o'r diwedd, allan i'r llaw chwith; a chyn trafeilio nepell yno, lle yr oedd pob peth yn dechreu myned hyllach, hyllach, clywn y galon yng nghorn fy ngwddf, a'm gwallt yn sefyll fel gwrych draenog cyn gweled; ond pan welais, och ormod golwg i dafod ddadgan, nac i ysbryd dyn marwol ei edrych! Mi a lewygais. O, aruthrol anferthol gyfwng tra erchyll, yn ymagor i fyd arall! Och â'r clecian fyth yr oedd y fflamau echryslawn wrth ymluchio tros ymylau'r geulan felltigedig, a'r dreigiau mellt ysgathrin yn rhwygo'r mwg dudew yr oedd y safn anferth yn ei fwrw i fyny! . . . . . Yna, o ben y geulan anaele, ymollyngasom, fel y gwelit ti ddwy seren anferth yn syrthio o entrych nef, i lawr â ni fil filiwn o filltiroedd, tros lawer o greigiau

brwmstan, a llawer anfad raiadr gwrthun, a chlogwyn eirias, a phob peth â gwg crogedig ar i waered fyth. . . . . Yno y gadawodd fy Nhywysog i mi orphwys peth drachefn ; ac yn hynny o seibiant digwyddodd i'r taranau a'r gwyntoedd croch ddystewi gronyn ; ac heb waethaf i swn y rhiadrwydd geirwon, mi a glywn o hirbell swn arall mwy na'r cwbl, o grochleisiau echrys, bonllefain, gwaeddi, ac ochain cryf, a thyngu, a rhegu, a chablu, oni roiswn i newid ar fy nghlustiau rhag gwrando." Yn y fath ar iaith a hyn yr ä'r awdur ymlaen i ddisgrifio'r golygfeydd fu'n llygad-dyst o honynt yn ystod ei ymweliad breuddwydiol ag uffern.

* * *

Dyma'i ddisgrifiad o dynged un math neilltuol ar ddynion : " Islaw hyn ronyn, prin y gwelsom ryw garchar-bwll arall tra thywyll ; ac yno yr oedd pethau a fuasai yn ddynion, â wynebau fel pennau bleiddgwn, hyd at eu cegau mewn siglen ; ac yn cyfarth cabledd a chelwydd yn gynddeiriog, tra caent y colyn allan o'r baw. Yn hyn, dyma gadfa o gythreuliaid yn dyfod heibio, a chyrhaeddodd rhai frathu deg neu ddeuddeg o'r diawliaid a'u dygasai hwynt yno, yn eu sodlau. ' Gwae, distryw, uffern-gwn ! ' ebr un o'r diawliaid a frathesid, ac a darawodd ar y siglen, onid oeddynt yn soddi yn eigion y drewi. ' Pwy a haeddai uffern yn well na chwi, a fyddai yn hel ac yn dyfeisio chwedlau, ac yn sibrwd celwydd o dŷ i dŷ, i gael chwerthin wedi y gyrech yr holl fro benben â'u gilydd.' ' Dyma,' eb yr Angel, ' lety yr athrodwyr, yr enllibwyr, a'r hustingwyr, a phob llwfrgwn cenfigennus, a anafant fyth o'r tu cefn, â dyrnod neu â thafod '." Braidd na'm temtir i ddweyd eu bod yn haeddu fath ar dynged ofnadwy.

* * *

Beth am dynged hereticiaid ? Dyma hi : " Nesaf i'r drewbwll yma, gwelwn dyrfa fawr, yn eu heistedd, yn ochain yn greulonach na dim glywswn i hyd yn hyn o uffern. ' Ymgroes dda i bawb,' ebr fi, ' beth sy'n peri i'r rhai hyn achwyn mwy na neb, heb na phoen na chythraul ar eu cyfyl ?' ' O ! ' eb yr Angel, ' mae ychwaneg o boen oddimewn, os oes llai o'r tu allan : hereticiaid gwrthnysig, a rhai annuw, a llawer o rai annghrist, ac o'r bydolddoethion, gwadwyr y ffydd, erlidwyr yr eglwys, a myrdd o'r cyfryw, sy yma wedi eu gadael yn hollawl i chwerw-ddycnach gosp y gydwybod, sy'n cael ei chyflawn rwysg arnynt yn ddibaid ddirwystr. . . . . Mae yr ewyllys yn codi blys y gwynfyd a gollwyd ; a'r cof yn edliw hawsed fuasai ei gael ; a'r dealltwriaeth yn dangos faint y golled, a sicred yw na cheir bellach ddim ond yr annhraethol gnofa byth bythoedd. Ac â'r tri hyn, y mae'r gydwybod yn rhwygo yn waeth nag y gallai holl ddiawliaid uffern."

* * *

Diweddir y weledigaeth fel hyn: "Ar hyn, gwyntiwyd y follt fawr, a tharawyd Luciffer a'i ben-gynghoriaid i sugnedd Uffern Eithaf; ac och fyth erwined oedd gweled ceg Annwn yn ymagor i'w derbyn! 'Wel,' eb yr Angel, 'weithian ni a ddychwelwn; ond ni welaist ti eto ddim wrth y cwbl sydd o fewn cyffiniau Distryw; a phe gwelsit y cwbl, nid yw hynny eto ddim wrth sydd o drueni annhraethol yn Annwn; canys nid yw bosibl bwrw amcan ar y byd sy'n Uffern Eithaf.' A chyda hyn fe a'm cipiodd yr Eryr nefol fi i entrych y fagddu felltigedig, ffordd nas gwelswn, lle ce's o'r llys hyd holl ffurfafen y Distryw duboeth, a holl dir anghof, hyd at gaerau'r Ddinas Ddienydd, lawn olwg ar yr anfad anghenfil o gawres y gwelswn ei thraed hi o'r blaen . . . . Pe ceid hon o Uffern, fe ai Annwn yn Baradwys; a phe ceid hi o'r ddaear, fe ai'r byd bach yn nef; a phe cai hithau fyned i'r nef, hi a droiai'r Gwynfyd yn Uffern Eithaf . . . . Hi a elwir *Pechod*. Y sawl a ddiango o'i bachau hi, gwyn ei fyd fyth,' eb yr Angel."

* * *

Y mae, er ymddangosiad cyntaf y llyfr, fel y sylwyd, ddeucant a hanner o flynyddoedd. Am ran fawr o'r cyfnod hwn, addysg y llyfr hwn fu addysg Eglwysi Cymru; ofn uffern o dân di-ddiwedd fu un o'n cyfryngau effeithiolaf i gael pobl tu fewn i gaerau "Dinas Noddfa." Ond, beth am y sefyllfa heddyw? Nid oes ond ychydig a wir gredant y syniad echryslawn—a'i gwir gredant, sylwer. Eithr fe erys y syniad, er hynny, mewn conglau a chilfachau; fe roddir iddo'r hyn ellir yn briodol ei alw'n "gydsyniad distaw." Y mae eisiau tipyn o *Spring Cleaning* ynglyn â diwinyddiaeth Cymru —i ysgubo ar y neilltu, o fodolaeth yn wir, bob math ar sothach na apeliant at feddwl a chydymdeimlad diwylliedig ein hamser. Ac un o'r sothach hyn yw'r syniad o gosb ddi-ddiwedd. Y mae cosb; y mae i bob meddwl ac amcan a gweithred ddrwg eu canlyniadau. Ond rhaid i'r gosb fod gymesur â'r trosedd. Y mae hyn yn gyson â Thadoldeb perffaith; ond ni all Tadoldeb perffaith ganiatau rhagor na hyn.

* * *

Wrth ddweyd fod angen tipyn o *Spring Cleaning* ar ddiwinyddiaeth Cymru, nid dadleu yn erbyn pob diwinyddiaeth wnaf. Ffolineb fyddai hynny, oblegid ni ellir gochelyd diwinyddiaeth. O bydd dyn yn meddwl o gwbl ar faterion bywyd a'i dynged, ni all osgoi meddu'r hyn a eilw Theodore Parker yn "*Theory of the Universe*." Dyna ymadrodd arall anodd iawn ei drosglwyddo i'r Gymraeg mewn gwisg Gymraeg. Ei ystyr yw—syniad am y bydysawd. A dyna beth yw diwinyddiaeth—syniad am y bydysawd yn ei amrywiol agweddau. Rhyw greadur rhyfedd yw'r dyn na fedd un syniad o'r fath. Gwell y syniad amrytaf nag amddifadrwydd o un math ar syniad. Ond gwell na'r cwbl yw'r syniad gore, teilyngaf, i fyny â meddwl ac ag ysbryd yr oes. A dim ond goruchwyliaeth drwsgl y *Spring Cleaning* yn unig eill gadw diwinyddiaeth Cymru i fyny â'r nod.

Y PECHOD ANFADDEUOL.

Sonnir yn y Testament Newydd am bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, ac fod y pechod yn anfaddeuol, ac y mae yna lawer o ddyfalu wedi ac yn bod gyda golwg ar ba beth yw y pechod hwn. Ofna rhai y gallant ei gyflawni mewn anwybodaeth, neu ar ddamwain, neu eu bod eisioes wedi ei gyflawni. Meddylir ganddynt fod hwn yn bechod eithriadol, ac hollol anhebyg i bob pechod arall.

Yn gyntaf, yntau, ni a sylwn ar y syniad fod y pechod hwn yn un y gellir ei gyflawni mewn anwybodaeth, neu ar ddamwain. Pe gadawai unrhyw ddyn dwll dwfn, peryglus, ond cuddiedig, lle y byddo llawer o dramwy, fel y byddai i bobl mewn anwybodaeth yn sydyn syrthio i mewn iddo a'u lladd byddem yn ystyried y dyn hwnnw yn ddyn drwg. Dywedem, 'os nad allai y dyn gau y twll i fyny, y gallai, o leiaf, roi marc amlwg i ddangos y fan, fel y gallai pawb wybod am dano, a'i ochel.' Ond beth a feddyliwn ni ac a ddywedwn ni am y dynion a feddyliant fod Duw wedi gadael man peryglus yn guddiedig, drwy'r hwn y gallai dynion syrthio mewn munud awr, nid yn unig i farwolaeth dymhorol, ond dragwyddol. Mae'n beth ofnadwy i'w gredu am y Tad Hollalluog, ac yn beth nas gallaf fi, fel un, ei gredu am dano. Ond mae'n bosibl fod yr ystyr yn fwy syml nag y tybiwn ar y cyntaf, a'i fod yn un y gallwn ni ei amgyffred a gwneud defnydd o hono, a'r ffordd oreu i'w ddeall yw darllen geiriau Iesu fel y'u ceir yn y Testament Newydd, a chael allan pa bryd a phaham y llefarwyd hwynt ganddo. Llefarwyd hwynt ganddo wrth y Phariseaid a briodolent allu da Crist i allu drwg. Dywed yr hanes fod Crist wedi iachau dyn dall a mud. Meddai y Phariseaid, 'nid yw hwn yn bwrw allan gythreuliaid, ond trwy Beelzebub pennaeth y cythreuliaid.' Dywedai Iesu nad oedd hyn yn gabledd yn ei erbyn ef, ond yn erbyn Ysbryd Duw. Paham hynny? Nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei grybwyll; nid oedd y Phariseaid wedi dywedyd dim am yr Ysbryd Glân, ond yr oeddent wedi priodoli ei allu da ef i allu drwg. Sut oedd hynny'n gablu'r Ysbryd Glân? Nid yn eu geiriau 'roedd y gabledd, ond yn eu hysbryd. Yr Ysbryd Glân, neu Ysbryd Duw ynom a ddysg i ni beth yw daioni. A phan y gwadai y Phariseaid nad oedd y weithred a gyflawnwyd gan Iesu yn tarddu o fan da; gwadent, i bob pwrpas, nad oedd y weithred yn weithred dda; oherwydd nid yw y diafol yn gwneud gweithredoedd da: pe byddai, nid y diafol fyddai. Mae'n rhaid i weithredoedd da ddyfod oddiwrth Dduw, oddiwrtho ef y mae pob rhodd ddaionus a phob dawn berffaith yn disgyn. Mae'n rhaid i ni naill ai gwneud y pren yn dda a'i ffrwyth yn dda, neu ei wneud yn ddrwg a'i ffrwyth yn ddrwg. Gan hynny, pan ddywedent fod Crist yn bwrw allan gythreuliaid trwy Beelzebub, dywedent nad gweithred dda oedd bwrw allan gythreuliaid ond gweithred ddrwg. Ond, hwy a wyddent yn well na hynny. Dysgai Ysbryd Duw'n eu calon iddynt, fod bwrw allan gythreuliaid nid yn weithred ddrwg ond da. Yr oedd y gabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân, gan hynny, yn gynnwysedig mewn gwadu fod daioni'n dda. Er mwyn ceisio trechu'r Iesu gwadent argyhoeddiadau mwyaf sylfaenol eu heneidiau eu hunain. Gan hynny, cablu'r Ysbryd Glân yw dywedyd mai o ddrwg y daw peth pan ein dysgir ni gan ein greddfau moesol ac ysbrydol mai o'r da y daw.

Mae yna ryw argyhoeddiadau moesol ac ysbrydol â'r rhai yr anrhegir ni gan Dduw, y rhai ydynt sylfeini ein holl argyhoeddiadau eraill. Gwadwn ni y rhai hyn, ac

nid oes na *right* na *wrong*, na da na drwg, na dyledswydd, na Duw. A dyna'n gywir yr hyn a wnawd gan y Phariseaid, ac hyn yw hanfod y gabledd anfaddeuol. Felly, ymddengys fod pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân yn golygu penderfyniad y meddwl i beidio derbyn gwirionedd di-os, na derbyn yr hyn y gwyddys ei fod yn dda, am fod y gwirionedd a'r daioni hynny'n brwydro'n erbyn ei ragfarnau, ei fuddiannau a'i ddymuniadau.

Ac nid yw'r pechod hwn, gan hynny'n weithred anymwybodol, a gyflawnir mewn anwybodaeth. Gall beth bynnag a wneir gennym mewn anwybodaeth gael maddeuant. Meddai'r Apostol: 'Mi a gefais drugaredd, am i mi'n ddiarwybod ei wneuthur trwy anghrediniaeth.' Meddai'r Iesu: 'Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur.'

Mae holl efengyl Crist, ei holl addysgiadau, yn sylfaenedig ar y syniad y gellir helpu dyn allan o bob cyflwr drwg gan Dduw a'i gyd-ddyn, ond un—cyhyd ag na byddo dyn o'i wirfodd yn gwrthwynebu gwirionedd a chariad Duw, gellir maddeu iddo: ond nis gellir maddeu iddo'n groes i'w ewyllys ei hunan; ac nis gellir ei achub yn groes i'w ewyllys; nis gall fyned i'r nefoedd yn groes i'w ewyllys. Mae'r cyflwr meddwl yna bob amser yn un pa un bynnag a ddengys efe ei hunan mewn cabledd yn erbyn ysbryd daioni, neu mewn calon wedi caledu'n erbyn *right*, neu mewn cydwybod wedi ei serio megys a haearn poeth, neu mewn gwrthwynebiad i achos *right*. Y perygl o gyflawni y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân yw cosb fawr ddyddiol pan ei camddefnyddir. Trefnodd Duw i ddyn fod yn rhydd. Nid i ddedwyddwch y gwnaeth ef ddyn—i'r fath ddedwyddwch ag a gaiff y pysgodyn yn y môr, neu'r aderyn yn yr awyr. Gwnaeth ef ddyn i ddedwyddwch uwch a ddaw o ddaioni, a thrwy ddaioni'n unig y caiff ef afael ynddo, a hynny fel bod rhydd, heb ei orfodi hyd yn oed gan Dduw. Yr oedd yna Gysegr Sancteiddiolaf yn y Deml Iddewig, i'r hon nid a'i neb ond yr Archoffeiriad, ac yntau ond unwaith yn y flwyddyn yn unig. Mae'n enaid dyn hefyd Gysegr Sancteiddiolaf—sedd gysegredig personoliaeth, cartref dirgel rhyddid dynol, i'r hon nis gall neb fyned i mewn ond yr unigolyn yn unig. Rhoddodd Duw allwedd y drws i'w chadw iddo ef. Nid â hyd yn oed Duw i mewn yn erbyn ei ewyllys ef. Gall ef gau allan Dduw a dyn; gall ef gau allan wirionedd a daioni. Er mwyn iddo fod yn hollol rydd rhoddir gallu iddo gredu anwiredd a charu drygioni. O'r man canol yna'n yr enaid mae popeth a ddaw allan yn ffrwyth rhyddid. Os daw daioni allan eiddo y dyn ei hunan yw; os drwg a ddaw allan eiddo y dyn ei hunan hefyd yw hwn. Ond mae i'r gallu mawr hwn ei berygl mawr. Os awn ni o'r neilltu i gastell ein henaid pan yn gwrthwynebu gwirionedd a daioni, nis gall yr un gallu dynol na dwyfol ein canlyn i mewn i'n troi na'n helpu'n groes i'n hewyllys.

Ai pechod yn erbyn yr Yspryd Glân yw gwadu nodwedd ddwyfol daioni, a gwrthsefyll dylanwad gwirionedd a chariad, er mwyn dal rhyw argyhoeddiad, amcan, neu ragfarn neilltuol, gwrthsefyll daioni drwy nerth yr ewyllys yn unig? Nid yw y pechod yma'n erbyn yr Ysbryd Glân gan hynny, yn weithred unigol neu eithriadol, ond mae'n weithred aml a chyffredin iawn yn y rhan luosocaf o ddynion, ond yn neilltuol gyffredin ymhlith y crefyddol, ac yn y rhai a roddant y pwys mwyaf ar eu bod yn meddu y wir ffydd, ac yn aelodau o'r wir eglwys. Y mae'n bechod nas gellir ei faddeu, am ei fod yn cau y meddwl yn erbyn y gwirionedd hynny a ddygai edifeirwch ac a wnai faddeuant yn bosibl.

Yn olaf, y mae yna y ddau fath yma o bechodau—y maddeuadwy a'r anfaddeuadwy. Cyflawnir y gyntaf gan y rhai a garant wirionedd a daioni, ond a fethant drwy anwybod-

aeth, grym arferiad, esiampl ddrwg, &c. Mae'r ail yn bechodau gwirfoddol – pechodau a gyflawnir yn erbyn y gwirionedd. Gall y cyntaf gael maddeuant ; hynny yw, gall eu canlyniadau drwg gael eu symud drwy drugaredd Duw. Mae'n rhaid i'r olaf ddioddef y gosb i'r man eithaf. Am y rhai yma gellir dywedyd, 'Yn wir, ni ddeui di allan oddiyno hyd oni thalech y ffyrling eithaf.'

C. C.

BYR GOFFA AM Y DIWEDDAR MR. JOHN JENKINS (CERNGOCH).

Ganwyd Cerngoch mewn amaethdy o'r enw Blaenplwyf, Llanfihangel-Ystrad, Sir Ceredigion, yn y flwyddyn 1820. Mab ydoedd i Mr. Jenkin Jenkins, a Sarah, ei wraig. Yr oedd yn un o dri ar ddeg o blant. Yr oedd mam Cerngoch yn nith, ferch brawd i'r bardd a'r ysgolor bydglodus, Dafydd Dafis, Castellhywel ; felly, nid rhyfedd fod Cerngoch yn fardd mor naturiol. Yr oedd y dalent wedi treiddio mor ddwfn i'r gwaed hyd at dori allan yn awr ac eilwaith yn y llinach.

Amaethwr oedd Cerngoch yn ei alwedigaeth. Ni chafodd fawr o fanteision addysg adeg boreu oes. Er fod ei rieni yn 'gefnog o bethau'r byd,' fel dywedir, nid oedd manteision addysg yr oes hono y peth ydyw heddyw. Wedi'r cyfan, casglodd yr hen fardd gryn lawer o wybodaeth drwy ei oes hirfaith. Medrai ysgrifenu a rhifyddu yn dda iawn. Byddai yn achwyn yn aml am na chafodd addysg yn ieuanc.

Yr oedd Blaenplwyf yn cynwys tua dau can' erw o dir ; byddai hela llwynogod a gwahanol fathau o helwriaeth, ac yn anaml wrth eu gwaith. Nid oedd Cerngoch yn teimlo fel lladd un creadur diniwed. Weithiau byddai yn mynd allan gyda'r gwn i hela petris, ond yn dod yn ol heb yr un ganddo ; a dywedai, 'Ces sawl ergyd atynt, ond fflatiais bob tro, a mawr dda eu calonau hwy ; gwell gennyf eu bod yn fyw.'

Daeth gwaith y fferm i bwyso ar ysgwyddau Cerngoch am ei fod fel y ceffyl hwnnw sydd yn foddlawn i dynu. Cafodd ei osod ar y fferm yn lle cael mynd i ysgolion. Yn y flwyddyn 1845, priododdun o flodau Bro Aeron. Aethont i fyw i Penbrynmawr, fferm o gryn faintioli.

Ganwyd iddynt ddeg o blant. Bu y fam druan farw ar enedigaeth y degfed baban gan adael yr hen fardd, a deg o rai bychain yn amddifad o fam ar ei ddwylaw. Llawer o weithiau aeth dros yr helynt wrthyf a'r dagrau yn treiglo dros ei ddwyrudd. Druan ag ef. Gallwn ddychmygu fy mod yn gweled ei wynebpryd hardd y funud yma. Cododd y plant, a rhoes addysg dda iddynt, yn fechgyn a merched, a buont yn anrhydedd i'w rhieni. Yr oedd dau o'r bechgyn yn mynwesu yr awen, sef Jenkin Jenkins (Aeronian), a Thomas E. Jenkins (Aeronwy), Denver, Colo.

Yr oedd Aeronian yn un o bryddestwyr goreu canolbarth Ceredigion yn ei ddydd. Ysgolfeistr oedd wrth ei alwedigaeth, a gwnaeth waith dirfawr yn ei oes fer. Bu farw yn ieuanc, yn saith a deugain oed, gan adael un ar ddeg o blant yn amddifaid o dad a mam. Mae Aeronwy yn hysbys i ddarllenwyr y DRYCH ; bydd yn anfon ei gynyrchion iddo er's blynyddau meithion bellach. Yr oedd brawd gan Cerngoch oedd yn fardd da, a gelwid ef Joseph Jenkins (Amnon yr Ail), Trecefel, Tregaron.

Bu Amnon yr Ail am flynydd iu yn Awstralia, a daeth yn ol, a bu farw. Dyma benill o'i waith roddwyd ar ei faen bedd mis Awst diweddaf, gan Thomas Aeron Davies, Stonecutter :

Marw rhaid, nis gwyddom pryd,
Pa fodd, pa fan, yn hyn o fyd ;
Ac os yw bywyd i ni'n rhodd,
Mae marw hefyd, yr un modd
Can's beth fo'n rhan, mae'n ddigon
eglur
Cawn chwareu teg gan Awdwr Natur.

Priododdd Cerngoch yr ail waith, wedi i'r plant dyfu i fyny, a phriodi a mynd i ffwrdd.

Wed iddo fyned i fyw i Penbryn, byddai yn cael ei alw'n 'Siaci' gan y werin, neu 'Cerngoch.' Yr oedd y ddau enw yn eithaf adnabyddus drwy Ddeheudir Cymru, a byddant am oesoedd eto. Cefais adnabyddiaeth drylwyr o Cerngoch tra oeddwn yn ngwasanaeth offeiriad Silian tra'n llanc. Gan nad oedd ond tua thair milldir rhyngom, byddwn yn gweled y naill y llall yn aml.

Yr oedd fy llygad yn dreiddgar, a'r clyw yn llym ; ystafell y cof heb fawr o'i mewn. Gwledd i mi oedd cael cwmni yr hen fardd am awr neu ddwy er cael nwyddau i'w cofrestru yn y 'gell' erbyn y dyfodol.

Yr oedd Cerngoch o faintioli yn fwy na'r cyffredin ; dwy ysgwydd lydan, a brest gyflawn ; llais soniarus a swynol i'r glust ; dau lygad clir a threiddgar ; ond nid yn haerllug ; o bryd goleu. Gellid ei alw yn ddyn cydnerth, gyda thalcen llydan ac uchel, a'i ddwy rudd wedi eu paentio unlliw a choch y gwin.

Yr oedd yn gerddwr mawr, ac ar ddwy droed yr ai bob amser. With gerdded byddai'n oleddu i'r ochr aswy a'r fraich dde yn curo amser i'r traed, a'r llaw aswy yn gorwedd, neu ganiatau yr hyn fyddai ryw bersonau dychmygol yn geisio oddiar ei law. Meudwyol ym .nyd awen oedd tra ar grwydriadau o'r fath. Gellid meddwl fod yno ail berson ond yn anweledig i lygad o gnawd. Dywedodd wrthyf unwaith mai ar y teithiau yma y cyfansoddodd y darnau goreu.

Bu fyw yn Penbryn Mawr am naw mlynedd a deugain. Gweithiodd yn galed foreu a hwyr. Gwelodd lawer diwrnod du ac ystormus. Gwelodd luaws o ddiwrnodau tesog, a haul llwyddiant yn gwenu arno haf a gauaf. Gan ei fod o natur hapus a bywiog bu hynny yn gymorth iddo lawer tro rhag teimlo gerwinder y storm.

Ar foreu Sadwrn Pasc yn y flwyddyn 1894, aeth allan yn foreu iawn (fel ag oedd yn arfer, yr adeg honno o'r flwyddyn), i edrych am y defaid a'r wyn bach. Yr oedd ei iechyd fel arferol, pryd aeth allan o'r tŷ. Gan na ddaeth yn ol fel arfer aethpwyd i edrych am dano. Cafwyd ef wedi marw ar ei ffordd adref ar heol yn ymyl y tŷ. Yr oedd y cymydogion wedi ei weled yn mhlith y defaid. Rhaid iddo ddeall fod yr alwad wedi dyfod. Plentyn natur ydoedd, yna gorweddodd ar arffed ei fam ac heb na phoen na gwewyr ehedodd enaid yr hen fardd ar edyn y wawr hyd y nef. Claddwyd ef yn Rhydygwin.

CWYN COLL.

Rhoed ei gorff yn Rhydygwin—i or-
Yn erwau'i gynefin ; [wedd
Ei urdd a geir oedd bardd gwerin
O'i ddifyr gerdd ddifera gwin.

(*I'w barhau.*)

DEWI GWENOG.
Mason City, Ia.

URDD Y DEYRNAS.

Mudiad sydd yn tynu llawer o sylw yn y dyddiau hyn ydyw yr un sydd yn myned dan yr enw Urdd y Deyrnas. Ysbrydol ydyw amcanion yr Urdd yn ei thueddiadau, ac yn ol a welsom y mae yn ddigon eang ei therfynau i gynnwys pawb sydd am fyw y bywyd Cristionogol mewn gwirionedd. Dyma y deffiniad a roddir o'r Urdd: 'Brawdoliaeth o bobl, yn wŷr ac yn wragedd, a'u bryd ar ddirnad y ffydd Gristionogol, ar ddarganfod y ffordd Gristionogol, ac ar ymroddi o ddifrif i fyw y bywyd Cristionogol.' Mewn eglurhad pellach dywedir beth yw natur ac amcan yr Urdd, yr hwn sydd fel y canlyn:

Nid mewn ysbryd rhwysgfawr y gosodir y ddelfryd uchod ger bron, eithr gan ymdeimlo yn ddwys a chyflwr gresynus ein byd ar ol y rhyfel erchyll a dinystriol, ac a'n gwendid ein hunain. Ond er i ni deimlo fod y fagddu yn gordoi y cenedloedd, a bod aml i obaith a goleddid yn ddiweddar yn diflanu eisoes, nid ydym heb ymgysuro yn y gobaith mawr am Deyrnas Dduw ar y ddaear, er maint y trueni a'r ing sydd yn blino y ddynoliaeth. Clwyfwyd y byd yn ei bethau goreu, a gadawodd yr heldrin ef yn rhy lesg i gredu yn effeithiol yn ei weledigaeth nefol. Y mae tuedd amlwg y dyddiau hyn i fyned yn ol at yr hen safonau ac i ymlwybro drachefn yn yr hen rigolau.

Swydd a braint yr eglwys yw cadw fflam gobaith yn ddisglair, ac nid oes well cyfle i gyflawni gwasanaeth o'r fath na chyfnod y digalondid mawr. Ond os ydyw'r eglwys i fod yn gymwys at waith o'r fath, rhaid i'w gweledigaeth fod yn eglur a'i ffydd yn gadarn. Rhaid iddi wrth asbri, egni, gwreiddioldeb ac anturiaeth yr ieuainc; rhaid iddi hefyd wrth wasanaeth a chydweithrediad dynion o wroldeb ac ewyllys da lle bynag y bont i'w cael, ac fel y mae waethaf modd, y mae llawer o'r bobl mwyaf ymroddgar y tu allan i'r gwahanol eglwysi. Rhaid yw eu casglu ynghyd ddelfryd a roddes yr Iesu i'r byd i ddibenion teyrnas Dduw.

Ond tybed a ydyw'r deyrnas, mewn gair a gweithred, yn cael y lle dyladwy ym meddwl ac yn serch yr eglwys ei hun? Oni osodwyd yr eglwys yn amlycach na'r deyrnas ger bron dynion? Ar y goreu, nid all yr eglwys fod yn ddim amgen na chyfrwng i hyrwyddo y deyrnas yn holl gysylltiadau amrywiol bywyd—yn myd masnach a gwleidyddiaeth, celf, ac ymchwil, addysg a llenyddiaeth. Newidiai ysbryd a threfniadau yr eglwys yn ddirfawr pe caffai y deyrnas ei lle cyfiawn, sef, y lle goruchel a roddes Crist iddi. Bu Efe fyw a marw erddi, a dilyn yr Athraw yw braint y dysgybl. Casglu dynion o ewyllys da ynghyd mewn cylchoedd bychain i fyfyrio ac i weithio, i wynebu yn onest, yn wrol ac yn ostyngedig broblemau y byd a'r eglwys a phroblemau ffydd ac ymarweddiad yw bwriad Urdd y Deyrnas. Rhaid tori i lawr y canolfuriau rhwng yr enwadau crefyddol, y pleidiau gwleidyddol a chymdeithasol, a'r galwedigaethau gwahanol, ac nid oes dim a all ddwyn hyn i ben ond hiraeth dwys am weled teyrnas Dduw ar y ddaear a gwroldeb i gredu, nid yn unig y daw rywbryd, eithr y gallwn ni hyrwyddo ei dyfodiad yn ein hoes ni, os mynwn fod yn gydweithwyr y Duw nad yw yn oedi Ei addewid.

Y mae amcanion y mudiad yn uchel a'i ddelfrydau yn rhagorol. Efallai mai rhywbeth o'r natur hwn fydd yn foddion i uno holl enwadau crefyddol Cymru a'u gilydd. Dymunwn y llwyddiant mwyaf i'r mudiad.

UNDEB Y MERCHED UNDODAIDD.

(Unitarian Women's League.)

Syr,—Y mae yr Undeb uchod wedi bodoli am bymtheg mlynedd, a'i amcan ydyw :

(i) I fywhau y bywyd crefyddol yn ein heglwysi, ac i ddwyn gwragedd a merched Undodaidd i gydweithrediad a chymdeithas agosach a'u gilydd.

(ii) Ceisio ffurfio canghennau newyddion, neu fudiadau lleol mewn cysylltiad a'n heglwysi.

(iii) Ceisio awgrymu ym mha fodd i ddarparu ar gyfer anghenion ac i helaethu dylanwad yr eglwysi, ac i ledaenu gwybodaeth ar faterion fydd o ddiddordeb i'r grefydd ryddfrydig.

Y mae yr Undeb wedi cynhyddu mewn nerth a dylanwad, fel y mae canghennau yn cael eu hychwanegu at y rhestr yn holl rannau o'r wlad.

Y mae y gwragedd a'r merched yng ngogledd yr Iwerddon ar fedr uno a'r Undeb, a phan ddaw hyn oddiamgylch, ni fydd braidd un rhanbarth lle y ceir ein heglwysi heb fudiad y menywod. Er hynny, nid yw yr Eglwysi Undodaidd Cymreig yn cael eu cynrychioli ar restr y canghennau, ac y mae yna ddymuniad gwir gan y rhai sydd a llwyddiant yr Undeb yn agos at eu calonnau, fod y lle gwag hwn i gael ei lanw. Gwerthfawrogem yn fawr pe bae y menywod Undodaidd yn rhoddi eu cefnogaeth i'r Undeb hwn.

Y mae pamffledyn yn cael ei barotoi yn Gymraeg, er ei ledaenu yn yr Eglwysi Cymreig, ac os y bydd galw am dani, y mae Miss Herford, yr ysgrifenyddes yn barod i dalu ymweliad a Cheredigion yn niwedd Awst. Y mae yn barod ganghennau yn yr Eglwysi Seisnig yng Nghymru. Hyderaf y medrir gwneud rhywbeth yng Nghyfarfodydd y Gymdeithas Undodaidd yn Rhydygwin i ddwyn y mater i sylw, ac y caiff y menywod gyfleustra i'w ystyried. Pan ar ymweliad a'n heglwysi hwnt i'r môr, yr oedd yn llawenydd i Miss Hargrove a minnau weled gwerth yr Undeb drwy uno a chalonogi menywod ein heglwysi. Ond er cyrraedd ei amcanion, y mae ar yr Undeb angen cefnogaeth ein menywod ymhob man.

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

E. ROSALIND LEE,

Penmaen,
Abertawe.

YSGOL DAFIS CASTELL HYWEL.

Y Saeson ugeiniau yn tynnu tuag yno ;
A phlant yr Iwerddon er darpar eu hurddo ;
Gwyr ieuainc yr Alban, trwy drafferth a helbul,
O fin y Ben Lomond yn dyfod i'w ymyl ;
Y son am yr Athraw a'u synnai'n aruthrol
Ac megys ar esgyll yn dyfod i'r Ysgol.

Y Geninen, Ebrill, 1886.

Y GARREG WEN A'R ENW NEWYDD.—(Dat. ii. 17.)

Cofiaf glywed llawer am bregeth o eiddo'r Parch. Titus Evans, Caerfyrddin, ar y pwnc. Yr oedd y bregeth mor boblogaidd fel yr oedd yn gorfod ei thraddodi lle bynnag yr elai am beth amser. Yr oeddwn i yn lled ifanc ar y pryd, ac ni wn i ddim am gynnwys y bregeth. Gallwn feddwl fod y testun yn rhoddi digon o le i'r dychymyg chwareu—a chwareu i bwrpas da hefyd. Amcan symlach sydd i'r llinellau canlynol.

Yr oedd y Garreg Wen, gallwn feddwl, yn golygu ffafr — tynged ffodus y rhai oedd yn gorchfygu. Pleidleisid yn ffafr person cyhuddedig drwy roi carreg wen, ac yn ei erbyn drwy garreg ddu* Wrth yr Enw Newydd, mae'n debyg, y golygid Jehofa, neu yn ol sillebiaeth dysgedigion heddyw—Iahfeh. Fe'i seinid gan y Samariaid yn Iabe. Darllenir fel hyn yn Esaiah lxii. 2: "A'r cenhedloedd a welant dy gyfiawnder, a'r holl frenhinoedd dy ogoniant: yna y gelwir arnat Enw Newydd, yr hwn a enwa genau yr Arglwydd"; a thrachefn yn Datguddiad xiv. 1 fel hyn: "Ac mi a edrychais, ac wele Oen yn sefyll ar fynydd Seion, a chydag ef bedair mil a saith-ugeinmil, a chanddynt Enw ei Dad ef yn ysgrifenedig yn eu talcennau."

Y ddau air mwyaf cyffredin am Dduw yn yr Hen Destament yw *Elohim* a *Jehofa*. Duw geir yn y Gymraeg am Elohim, ac Arglwydd am Jehofa. Diddorol yw cymharu dau hanes y Cread yn Genesis. Yn y bennod gyntaf, Elohim geir o'r dechreu i'r diwedd, ac yn yr ail bennod, o'r bedwaredd adnod ym mlaen, ceir Jehofa-Elohim. Yn y dechreuad y creodd Elohim y nefoedd a'r ddaear. Yn yr ail bennod darllenwn: "Yn y dydd y gwnaeth Jehofa-Elohim ddaear a nefoedd." Mae'r gair Elohim yn y rhif lluosog, ac megis yn awgrymu fod yr Iddew un amser wedi bod yn credu mewn rhagor nag un Duw.

Yr oedd yr enw Jehofa yn gysegredig—mor gysegredig fel y gwaherddid i'r Iddew ei lefaru. Yn lle dweyd Jehofa, arferai ddweyd Adonai bob amser. Dywed Josephus na chaniateid iddo *enwi yr enw*. Dywed Philo y gellid ei glywed ambell bryd yn y Cysegr Sancteiddiolaf. Seiliai yr Iddew y gwahardd-iad i "enwi yr enw" ar y geiriau a welir—neu yn hytrach y tybiai efe ei fod yn gweld—yn Lefiticus xxiv. 16: "A lladder yn farw yr hwn a felldithio enw yr Arglwydd; yr holl gynnulleidfa gan labyddio a'i llabyddiant ef; lladder yn gystal y dieithr, a'r priodor, pan *gablo* efe enw yr Arglwydd." Mae'r gair *cablu* yn hollol briodol yn y cyfieithiad; ond yn y "Deg a Thrigain," y cyfieithiad yw "enwi enw Jehofa." Tybir fod iawn seiniad y gair wedi ei golli cyn i'r Pentateuch gymryd ei ffurf presennol.

Defnyddir y gair Jehofa ryw 6823 o weithiau yn yr Hen Destament, fel enw priodol yn golygu Duw Israel. Fel y cyfryw gwasanaetha i'w wahaniaethu oddiwrth dduwiau cenhedloedd eraill.

Yn y 'Myfyrian Archaeology,' tud. 24, ail argraffiad, ceir y llinellau hyn o dan y penawd, Hanes Taliesin—

> 'Mi a fum ynghaer Bedion
> Tetragrammaton;
> Mi a dygum Heon
> I lawr glyn Ebron.

---

* Mae *Black Ball*, heddyw, yn golygu gwrthod ymgeisydd am aelodaeth o glwb.

Fel llawer, heblaw yn yr 'Hanes' mae rhyw dywyllwch caddugol i mi yn y llinellau hyn, ac eto anturiaf mor bell a dweyd gair am Tetragrammaton. Nid wyf yn gweld yr un cysylltiad rhyngddo a'r llinellau eraill. Ar wahan i hynny anturiaf ddweyd mai ystyr cyntaf y gair Tetragrammaton yn syml yw—Pedair llythyren. Mae y rhif pedwar yn rhif cyfriniol ac yn arwyddluniol yn mysg yr hen Iddewon o enw y Duwdod. Ceir yr enw yn gyffelyb mewn amryw ieithoedd eraill yn cael ei osod allan mewn pedair o lythrenau—

I H F H, Theos, Deus, Alla

Dywedai gwrthwynebwyr bore Cristnogaeth mai trwy lefaru y gair Tetragrammaton y byddai'r Cristionogion gynt yn cyflawni eu gwyrthiau.

R. J. J.

MARWGOFION

MEHEFIN 11, yn 81 oed, bu farw Margaret Daniel, Abercerdinen, plwyf Llanbedr, gynt o Glynrhelyg, plwyf Llanwenog. Byr fu ei chystudd olaf; ond nid oedd wedi mwynhau iechyd da er's blynyddoodd, gyda'r eithriad o'r adegau yr analluogid hi gan gyflwr ei hiechyd, bu'n ddiwyd iawn gyda'i goruchwylion teuluaidd ymron hyd y diwedd. Benyw fwynaidd a heddychol ei thymer, cywir ei hymddygiad, na fynnai er dim wneud cam a neb, a pherchid hi yn fawr gan gylch ei hadnabyddiaeth ar gyfrif ei rhinweddau. Perthynai i deulu adnabyddus iawn yn nyffryn y Rannell am amryw genhedlaethau. Ewythr iddi hi oedd yr adnabyddus David Daniel, Caeglas, enillodd gryn enwogrwydd fel meddyg esgyrn deheuig; a brawd iddi oedd y diweddar John Daniel, a fu farw yn agos i ddwy flynedd yn ol. Gadawodd mewn galar ar ei hol dair chwaer, a nifer luosog o berthynasau, a chydymdeimlir yn fawr a hwynt—yn enwedig a'r chwaer arferai gyd-fyw a hi yn y lleoedd uchod, ac na fuont erioed o gymdeithas eu gilydd. Nerth a gaffo i ymgysuro yn ei hunigrwydd. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Eglwys Llanwnen y Sadwrn canlynol. Prégethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. L. Williams.

MEHEFIN 28, David, baban Tom ac Elizabeth Evans, Ffynonllewelyn, Llandyssul, yn 3 mis oed. Yr oedd y bychan yn blentyn tlws, ac wedi dod yn ei flaen yn ardderchog hyd o fewn i ychydig ddyddiau i'r terfyn pryd y cymerwyd ef yn glaf iawn. Gwaethygodd yn gyflym, a ffarweliodd ar waethaf pob ymdrech i'w gadw. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni ieuanc yn eu trallod. Claddwyd y Sadwrn canlynol ym Mhantydefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas.

MEHEFIN 29, yn 56 oed, Lettice Davies, priod Mr. Thomas Davies, Yetgoch, Prengwyn. Bu yr ymadawedig yn gwanychu am amser hir, a bu yn gyfyngedig i'r aelwyd a'r ystafell wely am fisoedd. Gwraig dawel, ddistaw oedd yr ymadawedig, weithiodd ac aberthodd dros ei theulu, a phob amser yn barod i helpu pawb yn ol ei gallu. Cariai gyda hi wên siriol yn wastadol, ac ar gyfrif hyn yr oedd iddi barch dwfn ym meddwl y rhai a'i hadwaenai. Gadawodd briod a phedwar o blant mewn hiraeth mawr o'i cholli. Y

dydd Mawrth dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi ym mynwent Pantydefaid, y Gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

MEHEFIN 30, yn 56 oed, Sarah Jones, priod Mr. Thomas Jones, Pennant, Rhydowen. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i Samuel Thomas, gwehydd, Rhydowen. Er nad oedd wedi mwynhau iechyd da er's rhai blynyddoedd, eto daeth y diwedd yn annisgwyliadwy. Dioddefodd y cyfan yn dawel ac amyneddgar. Ymaelododd yn ieuanc ym Mhantydefaid, a dygai fawr sel dros yr achos. Gadawodd mewn galar o'i cholli briod, dwy ferch, ac wyrion. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi y dydd Mercher dilynol ym mynwent Pantydefaid, y Gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

GORFFENNAF 1, ar ol cystudd byr ond caled iawn, Evan Thomas, Gafriw, Mydroilyn, yn 61 oed. Gadawodd briod, sydd yn wael iawn ei hiechyd, pump o blant, brawd a pherthynasau ereill mewn galar o'i golli. Mab oedd yr ymadawedig i'r diweddar Jenkyn Thomas, Bwlchybryn, ger Bwlchyfadfa, ac fel ei dad a'i dylwyth bu'n ffyddlon iawn yn y Bwlch tra'n byw o fewn cyrhaedd i'r lle. Yr oedd yn ddyn a berchid yn fawr gan ei gydnabod. Claddwyd ym mynwent Brynhafod, Gorsgoch, yr Iau dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. Glyn Edwards, E. O. Jenkins, ac eraill.

GORFFENNAF 11, yn sydyn ac anisgwyliadwy, Anne Jones, Penpark, Capel Dewi, Llandyssul, yn 66 oed. Claddwyd y Sadwrn dilynol yng nghladdfa y teulu ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ, a phregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac offrymwyd gweddi ar lan y bedd gan y Parch. T. A. Thomas. Wele eglwys Llwynrhydowen wedi colli un arall o'i gwir ffyddloniaid. Tra parhaodd iechyd a nerth bu ein chwaer yn neillduol o ffyddlon; yn ffyddlon gyda phobpeth ag sydd yn ymwneud a bywyd a llwyddiant eglwys—ffyddlon i'r gwasanaeth a'r Ysgol Sul; ffyddlon gyda'r bwyd adeg cyrddau a chymanfaoedd; ffyddlon gyda'r gorchwyl blynyddol o lanhau'r hen fynwent. Yr oedd yn fawr ei pharch gyda phawb o'i chydaelodau; credwn fod iddi le cynnes yn nghalonau yr oll o honynt. Yr oedd yn fawr ei pharch hefyd yn ei hardal. Perchid ac anwylid hi ar gyfrif ei didwylledd, ei diniweidrwydd, a'i hyspryd caredig. Blin gan lawer yw'r meddwl na chânt ei gweld na'i chlywed yma mwy. Gadawodd mewn galar frawd, chwaer, neiaint, a llu o gyfeillion. Heddwch i'w llwch.

GORFFENNAF 4, yn 8 mis oed, Benjamin James, baban bychan Mr. a Mrs. Smith, Darrenfach, Pontshan. Claddwyd y rhan farwol o'r un bach ym mynwent Pantydefaid, a gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas.

GORFFENAF 7, yn 74 mlwydd oed, David Jones, Pant, Abergorlech, gynt o Llewele, Llansawel. Er nad oedd ei iechyd yn gryf er's ychydig fisoedd, nid oedd neb yn meddwl fod ei ddiwedd yn agos. Cafodd ei daro gan y parlys, a bu farw ym mhen ychydig amser. Mewn ffermdy o'r enw Banc, Abergorlech, y cafodd ei ddwyn i fyny, ac enwau ei rieni oeddynt John a Hannah. Mae dau frawd iddo yn byw yno yn awr. Dechreuodd ei fyd mewn amgylchiadau cyffredin, ond drwy fod yn ymdrechgar a di-wastraff, yr oedd mewn llawer gwell amgylchiadau erbyn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'i blant wedi priodi, ac wedi cael eu gosod mewn amgylchiadau da. Yr oedd amryw o nodweddion yn dra amlwg yn ei fywyd: un o ba rai oedd uniondeb. Enillodd y fath enw iddo ei hun o fod yn gywir ac uniawn fel yr oedd gan bobl ymddiried mawr ynddo a pharch dwfn iddo. Daeth y parch hwn i'r golwg ar ddydd ei angladd, pryd y daeth torf fawr ynghyd. Hanai o bobl Undodaidd, ac yr oedd yn dderbyniwr ac yn ddarllenwr o'r YMOFYNYDD ar hyd ei oes. Gwelir un o'i chwiorydd, sef Mrs. Davies, Cil-

wennau, Llansawel, yn ein Cyfarfodydd Chwarterol ac yn ein Cymanfa Ganu. Claddwyd ym mynwent Eglwys y Methodistiaid yn Rhydcwmerau. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. E. Rees, Abergorlech, a chymerwyd rhan gan y Parchn. D. Williams, B.A., Ffaldybrenin ; Lewis Williams a Collwyn Morgan, Alltyblacca ; Ehedydd Jones, Pumpsaint, a G. Jones, B.A., offeiriad Caio. Gadawodd briod, pedwar mab, tair merch, meibion a merched ynghyfraith, dau frawd, a dwy chwaer, mewn galar dwys ar ei ol.

GORFFENAF 20, ar ol cystudd maith a chaled, Hannah anwyl briod Albert Thomas, Blaenwaun, Rhydowen, Llandyssul, yn 56 oed. Gadawodd mewn galar briod, mab, dau blentyn ieuanc ag yr oedd hi wedi bod iddynt megis mam, brawd, pedair chwaer, ac amryw berthynasau ereill. Cydymdeimlir yn fawr â hwynt—yn enwedig â'r teulu yn Blaenwaun—yn eu trallod. Bydd ei lle yn wâg ar yr aelwyd ac yn Eglwys Llwynrhydowen. Ar adeg Cyrddau a Chymanfaoedd yr oedd hi'n ffyddlon iawn gyda'r gorchwyl o barotoi bwyd i ddieithriaid. Bu'n ofalus iawn hefyd i ddanfon y ddau blentyn ieuanc i'r Cwrdd a'r Ysgol Sul. Deallwn iddi, ar ei gwely cystudd, cyn ffarwelio, ddweyd wrth aelodau y teulu ragor nag unwaith, "Cofiwch am y Cwrdd a'r Ysgol Sul." Hyderwn y gwnant benderfynu parchu y cynghor hwn, ac y cânt nerth i gadw aelwyd glyd er ei bod hi wedi mynd. Claddwyd y Llun canlynol yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas. "Ni'th ollyngaf oni'm bendithi."

GORFFENAF 22, yn 70 mlwydd oed, Thomas Thomas, mab y diweddar Thomas Thomas, Gof, Llwynrhydowen. Bu farw yr ymadawedig yn Tynant, Capel Dewi. Y dydd Iau dilynol, claddwyd yr hyn oedd farwol o honno ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog.

GORFFENAF 23, yn 4 mlwydd oed, David Eirwyn Price, mab bychan Mr. David Thomas Williams a Mrs. Williams, Avenue Road, Tottenham, Llundain, gynt o Plasbach, ger Llanbedr. Yr oedd yr ymadawedig wedi myned o dan weithred lawfeddygol yn Ysbyty Aberystwyth y dydd blaenorol i'w farwolaeth. Ymddangosai i fod ar y ffordd i wellhad, a chredai y meddygon hynny, ond yn ddisymwth gwaethygodd, a bu farw ym mhen ychydig amser. Claddwyd y Gwener canlynol, ym mynwent Capelybryn. Cyflawnwyd rhannau o'r gwasanaeth gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a phregethwyd yn y Capel gan y Parch. L. Williams. Gadawodd dad a mam ieuainc, ac un chwaer fechan, ynghyd ag amryw o berthynasau agos mewn galar mawr. Y Duw sydd wedi cynal ereill mewn amgylchiadau cyffelyb a roddo nerth iddynt hwythau i ddwyn eu croes.

"Ere sin could blight or sorrow fade,
Death came with friendly care ;
The opening bud to Heaven conveyed,
And bade it blossom there."

CYFFES FFYDD DEWI GWENOG.

Undodwr dan faich gwendidau—ydwyf,
Blinedig fy ngamrau ;
Duw Ior hael, dyro olau
I'r addwyn wr ddwyn yr iau.

DEWI GWENOG.

MANION AC HANESION.

CYNHADLEDD YR YSGOL SUL.—Cynhelir yng Nghapel y Bryn dydd Mercher, Awst 15fed: (1) Cyfarfod trefnu am 2 o'r gloch; (2) Cynhadledd am 5, pryd y darllenir papur gan Mr. Cledlyn Davies ar 'Ryw agweddau o waith yr Ysgol Sul,' i'w ddilyn gan ymdrafodaeth. *Gofaled pob ysgol benodi dau gynrychiolydd.* Bydd y gynhadledd yn agored i bawb. Y mae rhai ysgolion heb ddanfon eu casgliadau i'r Trysorydd. —D. EVANS, *Ysg.*

ADRAN YR YSGOL SUL. Derbyniadau 1923—

	£	s.	c.
Graig, Trebanos	0	10	0
Rhydygwin	1	3	1
Capel y Groes	1	2	6
Caeronen	0	7	0
Capel y Bryn	1	0	8
Bwlchyfadfa	0	16	7
Brondeifi	1	2	0
Alltyblaca	0	16	7
Graig, Llandyssul... ...	2	12	3
Llwynrhydowen	1	15	0
Mewn llaw Gorff. 26, 1923	£15	18	9

D. CLEDLYN DAVIES, *Trysorydd.*

CWM.—Cafodd yr eglwys hon ei anrhegu a Llestri Cymun Unigol (arian) gan Miss Jones a Donald, mab bychan Penralltnewydd, Llanwenog. Nos Sul, Mehefin 24, yr oedd yr Henadur Meredith Ll. Gwarnant Williams, a Mrs. Williams, Penralltnewydd, yn bresenol yn y gwasanaeth, a chyflwynasant y Llestri i'r gynulleidfa ar ran eu mhab a'u merch. Gwerthfawroga y gynulleidfa y rhodd yn fawr, a theimla yn ddiolchgar am dani.

LLWYDDIANT.——Gwaith hyfryd iawn gennym ydyw hysbysu fod Mr. Dewi Oliver, unig fab Mr. a Mrs. Oliver, Blaeneinon, ger Cwmsychbant, wedi pasio Arholiad y London City & Midland Bank, ac ei fod wedi cael ei dderbyn i wasanaeth y Bank hwnnw yn Ebbw Vale. Dymunwn iddo ddyfodol llwyddianus.

CWRTNEWYDD.—Pleser mawr genym yw cofnodi llwyddiant y brawd ieuanc, Daniel Leonard Pugh, mab hynaf Mr. a Mrs. Pugh, Bryngranod, ger Cwrtnewydd. Mae wedi enill y radd o B.Sc., yn Ngholeg Prifysgol Cymru. Deallwn fod ei nod yn uwch eto, a dymunwn iddo nerth i gyrhaedd ei uchelgais.——Llawenydd mawr genym oedd clywed fod Mr. J. James Evans, B.A., athraw yn Ysgol Ganolraddol, Abergwaun, wedi enill y Gadair am bryddest yn Eisteddfod Goodwick, Gorffennaf 19. Testun y bryddest oedd 'Mwyniannau Bywyd.' Y beirniad oedd Job. Yr oedd deuddeg yn cystadlu, a dywedwyd fod saith o honynt yn deilwng o'r wobr. I ragori ar gynifer o bryddestau a gyfrifai beirniad fel Job yn rai teilwng, yr oedd yn rhaid fod eiddo Mr. Evans yn un dda odiaeth. Ychydig yn flaenorol i hyn enillodd ddwy wobr flaenaf yn Eisteddfod Abergwaun—un am delyneg a'r llall am englyn. Llawenha pobl Cwrtnewydd yn fawr oblegid ei lwyddiant, gan mai un o'r lle ydyw, a mab i Mr. a Mrs. Enoch Evans, Blue Bell. Yn uwch yr elo eto fel bardd a llenor yw eu dymuniad.

BEDDARGRAFF I GYFAILL.

Dyn o bryd gwywlyd a gwan—ei [iechyd
Fynychaf bu Ifan;
Gyda'r meirw mae 'rwan
Yng ngell oer gyfyng y llan.

DEWI GWENOG.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,
Carmarthen. Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde Edgar W. Woolley

Subscribed Capital	**£38,117,103**
Paid-up Capital	**10,860,852**
Reserve Fund	**10,860,852**
Deposits *(June 30th, 1923)*	**347,900,203**

Local Offices:

Llandyssul: 9, Lincoln Street

PENCADER | PONTTWELLY

Manager: R. W. ROBERTS

Over 1,720 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2